**Cyflwyniad**

Diben y ddogfen hon yw cynnig arweiniad i'r Cyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol i gefnogi cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol ac ystyrlon ar faterion yn ymwneud ag iechyd, diogelwch ac amgylchedd yn eu meysydd, a dylid ei darllen ar y cyd â dogfen Gweithdrefn Cyfathrebu ac Ymgynghori P019 sydd ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/#canllawiau

**Llywodraethu Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd**

Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol yw pwyllgor ymgynghorol y Brifysgol ar gyfer cynrychiolwyr diogelwch enwebedig, gan gynnwys y rheini o blith Undebau Llafur cydnabyddedig, yn unol â Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977. Mae'r Grŵp yn darparu fforwm ymgynghorol i drafod a goruchwylio gweithredu strategaeth a pholisi'r Brifysgol yng nghyswllt iechyd, diogelwch ac amgylchedd gan gynnwys trefniadau rheoli.

Mae'r Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn atebol i Grŵp Gweithredol y Brifysgol, ac yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn. Mae'n gyfrifol am gynghori Grŵp Gweithredol y Brifysgol, neu bwyllgor llywodraethu arall drwy'r Grŵp Gweithredol, mewn perthynas â materion iechyd, diogelwch ac amgylchedd.

Ceir manylion am gylch gorchwyl y Grŵp, a'i rôl yn strwythur llywodraethu'r Brifysgol yma: https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/governance/sub-committees/.

**Pwyllgorau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Lleol**

Mae Pwyllgorau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Lleol yn fodd y gellir ymgynghori'n ffurfiol o fewn pob Cyfadran ac Adran Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol. Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Lleol sy'n gyfrifol am gynghori a goruchwylio materion Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol yn eu Cyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol.

Er mai'r Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran neu Bennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol sy'n gyfrifol am aelodaeth neu gyfansoddiad y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Lleol, dylai cyfansoddiad priodol sicrhau cynrychiolaeth briodol i'r holl adrannau neu feysydd yn y Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol, ac adlewyrchu lefel briodol i'r Pwyllgor mewn perthynas â swyddi'r unigolion dan sylw. Dylid cynnwys cynrychiolwyr adrannol o Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol yn aelodaeth Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd perthnasol eu Cyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol hefyd.

Gall Pwyllgorau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Lleol chwarae rhan allweddol yn goruchwylio effeithiolrwydd ac addasrwydd systemau rheoli iechyd a diogelwch yn y Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol. I ymarfer y swyddogaeth hon, gall cylch gorchwyl y Grŵp gynnwys ystyriaeth o'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- Adolygiad o'r System Rheoli Iechyd a Diogelwch
  Bydd hyn yn cynnwys adolygu a rhannu gwybodaeth ar berfformiad iechyd a diogelwch cyfredol a statws y system reoli yn y Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol. Bydd y broses hon

yn cynnwys ystyried dangosyddion ymatebol a rhagweithiol, a allai gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- Nodi hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd priodol yn y Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol yn seiliedig ar broffiliau peryglon, a goruchwylio'r gwaith o gwblhau a chynnal anghenion hyfforddi;
- Derbyn unrhyw weithredu a orfodir gan asiantaethau gorfodi perthnasol fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; Cyngor Sir Ceredigion; ac Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Nodi, goruchwylio ac adolygu peryglon y Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol fel y'i nodir yn y proffil peryglon a'r matricsau risg;
- Derbyn data'n adrodd am ddigwyddiadau, adroddiadau am dueddiadau ac ymchwiliadau gan y Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol, er mwyn ystyried ac adolygu effeithiolrwydd unrhyw gamau adferol a gymerwyd i atal digwyddiadau eraill;
- Ystyried ac adolygu adroddiadau archwilio ac arolygu mewn perthynas â'r Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol, a chefnogi unrhyw welliannau neu ganfyddiadau a nodir.

- <u>Cyflwyniadau ar Thema Gwella</u>
  Gall hyn gynnwys derbyn cyflwyniadau neu adroddiadau ar themâu amserol neu themâu sy'n dod i'r amlwg y bydd gofyn i'r Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol eu rhoi ar waith a/neu ymateb iddynt, a allai gynnwys:
  - Derbyn y newyddion diweddaraf ar bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau canllaw iechyd, diogelwch ac amgylchedd newydd neu ddiwygiedig, y bydd disgwyl i'r Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol eu rhoi ar waith;
  - Derbyn gwybodaeth ac arweiniad ar ddeddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg, ymarfer gorau neu weithgareddau gwaith a allai effeithio ar weithrediadau a gweithgareddau'r Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol;
  - Derbyn sesiynau briffio neu sgyrsiau cymorth ar berygl a/neu faes risg penodol sy'n effeithio ar weithrediadau a gweithgareddau'r Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol.
- <u>Gweithdai Syndicad</u>
  Gweithdai neu sesiynau rhyngweithiol lle mae cyfranogwyr yn canolbwyntio ar themâu arbenigol ac yn trafod syniadau am weithredu i fynd i'r afael â diffygion a nodi a chyflwyno camau i wella.

Ceir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys cylch gorchwyl a awgrymir i'r Pwyllgorau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Lleol, yn y ddogfen Canllaw Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Cyfadrannol neu Adrannol G010 sydd ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/#canllawiau.

**<u>Cyfranogiad Aelodau o Staff</u>**

Mae ymgynghori â gweithwyr neu eu cynrychiolwyr ar faterion yn ymwneud â'u hiechyd a diogelwch yn rheoli da, yn ogystal â bod yn ofyniad dan gyfraith iechyd a diogelwch. Mae gweithwyr yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth a gallant ddarparu adborth am effeithiolrwydd trefniadau rheoli a mesurau rheolaeth iechyd a diogelwch. Os ceir cynrychiolwyr diogelwch, gallant weithredu fel sianel effeithiol i gasglu barn gweithwyr.

Bydd ceisio barn gweithwyr a'u cynrychiolwyr iechyd a diogelwch, fydd yn meddu ar wybodaeth ymarferol i'w chyfrannu am eu meysydd perthnasol yn y Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol, yn helpu i sicrhau

bod rheolwyr yn gallu ystyried yr holl wybodaeth berthnasol. Gall aelodau o staff hefyd ddarparu adborth defnyddiol ar effeithiolrwydd systemau rheoli a mesurau rheolaeth sy'n bodoli. Ystyrir ei bod yn ymarfer gorau i ymgynghori â staff perthnasol yn ystod y gwaith o ddatblygu ac adolygu prosesau a dogfennau'n ymwneud â'r canlynol:

- Asesiadau risg;
- Matricsau peryglon;
- Cynllunio busnes;
- Rheoli newid;
- Recriwtio a dethol;
- Cymhwysedd, ymwybyddiaeth a hyfforddi (gan gynnwys sefydlu);
- Dogfennau, rheoli data a chofnodion;
- Cynnal a chadw;
- Contractwyr neu ddarparwyr trydydd parti;
- Deunyddiau peryglus;
- Parodrwydd ac ymatebion brys;
- Adrodd ac ymchwilio digwyddiadau;
- Archwiliadau ac arolygon;
- Goruchwylio ac adolygu.

**<u>Dulliau o Ledaenu Gwybodaeth</u>**

<u>Hysbysfyrddau Iechyd a Diogelwch</u>

Gall hysbysfyrddau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd fod yn ddull hynod weledol o gyfathrebu gwybodaeth Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd hanfodol. Yn ddelfrydol, dylid eu gosod mewn mannau amlwg, gyda manylion am y lleoliadau'n cael eu rhannu ag aelodau o staff. Lleoliadau cyffredin ar gyfer hysbysfyrddau o'r fath yn aml yw cynteddau adeiladau a/neu fannau lles. Dylai'r math o wybodaeth a gynhwysir ar hysbysfyrddau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd lleol gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- Poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.hse.gov.uk/pubns/books/lawposter.htm);
- Copi o Dystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr a Chyhoeddus y Brifysgol (ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.aber.ac.uk/en/efr/insurance/);
- Rhifau Ffôn Argyfwng ac Allan o Oriau (lleol ac ar draws y Brifysgol);
- Enwau, lleoliadau a manylion cyswllt aelodau o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf (ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.aber.ac.uk/en/hse/proc-prac/first-aid/);
- Lleoliadau blychau cymorth cyntaf lleol;
- Mannau cynnull os oes rhaid gwacau'r adeilad.

<u>Arwyddion a Signalau Diogelwch</u>

Dan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996 rhaid i gyflogwyr sicrhau bod arwyddion diogelwch yn cael eu darparu (neu eu bod yn eu lle) a'u cynnal mewn amgylchiadau lle ceir risg sylweddol i iechyd a diogelwch nad yw wedi'i ddileu neu ei reoli mewn ffordd arall. Dim ond os bydd defnydd o

arwydd yn gallu lleihau'r risg ymhellach y bydd hyn yn briodol. Gallai'r dulliau eraill gynnwys rheolyddion peirianneg neu systemau gwaith diogel a gallent fod yn ofynnol dan ddeddfwriaeth berthnasol arall. Mae'r Rheoliadau hyn yn egluro na ellir defnyddio arwyddion diogelwch yn lle dulliau eraill o reoli risgiau i weithwyr; mae arwyddion diogelwch yna i rybuddio am unrhyw risg gweddilliol neu i gyfarwyddo gweithwyr ynghylch y mesurau y dylent eu cymryd mewn perthynas â'r risgiau hyn. Noder: efallai y bydd angen arddangos rhai arwyddion diogelwch tân dan ddarpariaethau cyfreithiol eraill.

O fewn y rheoliadau, mae gan arwyddion â lliwiau penodol ystyr pendant:

| **Lliw** | **Ystyr neu Ddiben** | **Cyfarwyddyd a gwybodaeth** |
|---|---|---|
| Coch | Arwydd gwahardd<br>Larwm perygl | Ymddygiad peryglus; stop; cau i lawr; dyfeisiau argyfwng i dorri cyflenwad; gwagio |
| Melyn / Ambr | Arwydd rhybudd | Byddwch yn ofalus; cymerwch ragofalon; archwiliwch |
| Glas | Arwydd mandadol | Ymddygiad neu weithred benodol e.e. gwisgo offer diogelu |
| Gwyrdd | Dihangfa frys<br>Arwydd cymorth cyntaf<br>Dim perygl | Drysau; allanfeydd; llwybrau dianc; cyfarpar a chyfleusterau; Dychwelyd i normal |

<u>Cyflwyniadau Diogelwch</u>

Cyflwyniad byr i'r gweithlu ar un agwedd ar iechyd a diogelwch yw'r cyflwyniadau diogelwch, sydd fel arfer yn sgwrs ddiogelwch anffurfiol yn ymwneud â rhannu ymarfer gorau. Fe'i cyflwynir fel arfer ar y safle (nid mewn ystafell hyfforddi) ar un pwnc penodol. Bydd yn gyflwyniad pwrpasol â ffocws a neges diogelwch benodol, y gellid ei chynnwys mewn gweithgaredd arall (e.e. cyfarfod staff). Yr amcan cyffredinol yw codi ymwybyddiaeth o agwedd benodol ar y gwaith. Mater i'r rheolwr perthnasol yw hyn a gall gynnwys gwybodaeth fel diweddariadau i weithdrefnau, diweddariadau o ran cyfarwyddyd gwaith, a rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau neu ddamweiniau agos.

Gall y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd gynorthwyo Rheolwyr Llinell i ddatblygu eu cyflwyniadau diogelwch. Cysylltwch â hasstaff@aber.ac.uk.